# Y CYNGOR, 09.07.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Endaf Cooke, Annwen Daniels, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Trevor Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Simon Glyn, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles W.Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June E.Marshall, Dafydd Meurig, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W.Roy Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Glyn Thomas, Ioan Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, Owain Williams, R.H.Wyn Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J.Wright ac Eurig Wyn.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Arwel E.Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Craig ab Iago, Stephen Churchman, Anwen Davies, Eddie Dogan, Aled Evans, Christopher Hughes, Llywarch Bowen Jones, Sion Jones, Linda Morgan a John Wyn Williams.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2015 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

(1) Cydymdeimlad

Nodwyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

(2) Dymuniadau gorau

Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Eddie Dogan yn dilyn anhwylder diweddar ac i'r Cynghorydd Linda Morgan oedd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

(3) Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Yr holl bobl ifanc a phlant o Wynedd fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerffili.
- Ysgol Glanaethwy ar eu llwyddiant yn dod yn drydydd yn y gystadleuaeth 'Britain's Got Talent'.
- Ysgol Abererch, ar ennill y Wobr Menter Bwyta'n Iach gyda'r prosiect SMŴ-FI. 'Roedd y rhain yn wobrau cenedlaethol ac 'roedd dros 2,500 o ysgolion wedi cystadlu.
- Ymdrech a llwyddiant Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn ar ennill y Wobr Platinwm Eco-Sgolion, sef yr ysgol gyntaf drwy Wynedd i dderbyn y wobr hon.
- Ysgol Edern ar ennill Gwobr Masnach Deg cwmni Devine.
- Y Cynghorydd Dewi Owen ar gael ei ethol ar Fwrdd Gogledd Cymru o Undeb Amaethwyr Cymru.

Nodwyd hefyd bod Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn ar y rhestr fer ar gyfer Medal Aur Pensaernïaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod a hefyd wedi ennill Gwobr Prydain Sefydliad Cynllunio Tref Frenhinol yn ddiweddar, yn dilyn ennill Gwobr Cymru yn 2014.

## 4. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Diolchodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i bawb, yn aelodau a swyddogion, fu'n rhan o'r Gweithdai Craffu Toriadau gan nodi y byddai prif sylwadau'r sesiynau wedi'u hymgorffori yn yr argymhellion i'r Cabinet ar 30 Gorffennaf.

## 5. CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2015-17

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Strategol penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Gan gyfeirio at y Prosiect Gwynedd Digidol, holwyd a fyddai'n bosib' ymestyn y band eang yn ysgolion gwledig y sir i adeiladau a thrigolion cyfagos fel bod y gymuned ehangach yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth. Nododd y Cadeirydd fod hwn yn bwynt y gellid edrych i mewn iddo. Gofynnwyd hefyd am sicrwydd y bydd y Cyngor yn dwyn pwysau ar BT Openreach i sicrhau bod band eang cyflym yn cyrraedd yr holl ardaloedd gwledig. Nododd y Cadeirydd fod hynny'n fater fydd yn cael sylw.
- Gan gyfeirio at y templed Cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn Atodiad 2, nododd aelod iddi dderbyn cŵyn yn ddiweddar bod y pecyn priodi ar gyfer cyplau un rhyw yn cynnwys y geiriau '*priodferch*' a '*phriodfab*' wedi'u croesi allan a '*phartner 1*' a '*phartner 2*' wedi'u gosod yn eu lle, a hefyd yn cynnwys y geiriau *'ef'* a *'hi'*. 'Roedd ar ddeall hefyd nad oedd yna gyfle i rywun dywys y partneriaid i lawr yr eil. Ychwanegodd fod hyn yn eithrio pobl a gofynnodd am i'r mater gael ei drafod mewn pwyllgor craffu. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd bod y rhain yn

faterion y tu allan i'r Cynllun Strategol, ond yn faterion sydd angen sylw, ac y byddai'r neges yn cael ei phasio ymlaen i'r adran berthnasol.

- Llongyfarchwyd y Cabinet a'r swyddogion ar y Cynllun Strategol. Nodwyd bod y ffocws yn glir iawn yn y ddogfen a chytunwyd mai dyma'r prif feysydd y dylai'r Cyngor fod yn edrych arnynt yn strategol dros y cyfnod hynod o heriol sydd i ddod.
- Gofynnwyd i'r swyddogion wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod Gwynedd yn elwa ar gyfran deg o'r £9m o arian Rhaglen Datblygu Gwledig a glustnodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd a chymunedau gwledig. Nododd y Cadeirydd y byddai'r sylw'n cael ei basio ymlaen i'r Cabinet. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod rhaid i'r Cyngor fod yn ofalus ei fod yn denu cymaint â phosib' o arian o gronfeydd Ewrop. 'Roedd record Cyngor Gwynedd yn y maes yma'n arbennig o dda a diau y byddai'r gwaith hwnnw'n parhau er sicrhau cymaint o fudd ag y gellir i economi wledig y sir.
- Nodwyd bod rhaid i'r Cyngor ei hun gymryd camau i gryfhau'r economi leol, ond 'roedd y system gynllunio bresennol yn milwrio yn erbyn datblygiadau economaidd, a phwysleisiwyd y dylai'r Cyngor allu cefnogi busnesau bach yn eu bro eu hunain, yn hytrach na'u gyrru i stadau diwydiannol yn y trefi. Cytunodd y Dirprwy Arweinydd â'r sylw gan nodi bod gweithgor o un o'r pwyllgorau craffu yn edrych i mewn i'r sefyllfa er mwyn gweld sut y gellir creu trefn gynllunio gadarnhaol sy'n annog, yn hytrach nag yn rhwystro, yr economi.
- Nodwyd bod agor ysgol newydd Y Groeslon wedi golygu cau ysgol Carmel, oedd â dros 60 o ddisgyblion ynddi, a bod yna rwyg yn y pentref oherwydd cau'r ysgol gan fod llawer o blant Carmel bellach yn mynd i Benygroes.
- Croesawyd yr adroddiad ond nodwyd ei fod yn codi llawer mwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb. Croesawyd y ffaith bod gan y Cyngor dargedau i anelu atynt, ond cwestiynwyd pa mor realistig ac ymarferol yw llawer ohonynt, e.e. y bwriad i sefydlu Ysgol Dalgylch y Gader fel ysgol cyfrwng Cymraeg. Nodwyd nad oedd y ddogfen yn cyfeirio at yr hyn sy'n mynd i ddigwydd yn Y Bala chwaith. Hefyd, ni dderbynnid y gosodiad yn yr adran Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai bod Gwynedd yn bell o'r ardaloedd mawr. Er bod Gwynedd ar ymylon y Deyrnas Gyfunol, nid oedd yn bell o'r ardaloedd poblog, megis Lerpwl a Manceinion, ac 'roedd yn ymddangos nad oedd yna ewyllys gwleidyddol i fanteisio ar agosrwydd Gwynedd at y marchnadoedd yma. 'Roedd y rhan yma o'r cynllun hefyd yn sôn bod 1,993 o bobl wedi eu cofrestru ar restr aros am dŷ cymdeithasol. A chymryd bod y ffigur hwn yn cyfeirio at deuluoedd yn hytrach nag unigolion, ac o gymryd bod yna 3 person ymhob teulu ar gyfartaledd, 'roedd yn ymddangos felly bod oddeutu 6-7,000 o bobl angen tŷ cymdeithasol yng Ngwynedd. 'Roedd sôn hefyd yn y cynllun am gynnydd arwyddocaol yn nifer busnesau'r sir sydd wedi ennill cytundebau gan y Cyngor, ond beth mae '*arwyddocaol'* yn ei olygu? Cyfeiriwyd at y ffaith bod ysgol yng Ngwynedd yn gweini cig eidion o Fotswana a gweithwyr tramor yn cael eu cyflogi ar brosiect i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yn ardal Deiniolen, a chyn hynny yng Ngharmel, a chwestiynwyd faint o flaenoriaeth mae'r Cyngor yn ei roi i gyflogi'n lleol. Croesawyd y ffaith bod yna adran benodol i'r Gymraeg yn y cynllun, ond pwysleisiwyd y dylai hyn fod yn rhan o bob un adran arall yn ogystal fel ei fod yn greiddiol i'r adroddiad drwyddo draw, ac nid yn sefyll ar ei ben ei hun. Deellid hefyd bod y Cyngor wedi colli £500,000 o incwm budd-dâl tai, ond nid oedd yr aelodau wedi derbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn â hynny. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelod a gododd y pwyntiau hyn grisialu'r cwestiynau'n gryno a gofyn i'r Aelod Cabinet am atebion.
- Nodwyd bod y Cynllun Strategol yn ceisio adnabod y meysydd lle gellir dylanwadu arnynt a gwneud gwahaniaeth gyda'r adnoddau a'r grym sydd gan y Cyngor. 'Roedd y dyddiau lle'r oedd y sector gyhoeddus a'r cyngor lleol yn cymryd y baich ar gyfer popeth wedi diflannu ac 'roedd angen i'r cynghorwyr chwarae eu rôl fel aelodau lleol er mwyn ceisio harneisio'r adnodd fydd ar ôl.

- Pwysleisiwyd nad oes gan y Cyngor bwerau i atal gweithwyr tramor rhag dod i mewn a bod hynny'n fater sy'n dod o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd.
- Nodwyd na all y Cynllun Strategol, fel mae'n sefyll, ddelio gyda'r arferiad cyson a'r patrwm cyson o dlodi gwledig sydd wedi bod yn rhan o'r drefn ers llawer gormod o amser, ond dylid canmol y cynllun gan ei fod yn symudiad i'r cyfeiriad iawn.

I gloi, nododd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn gwerthfawrogi'r sylwadau ar y Cynllun Strategol, oedd yn gynllun byw, a chadarnhaodd y rhoddid ystyriaeth i ymgorffori'r sylwadau hynny ynddo, neu i'w gweithredu fel mater o ddydd i ddydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Strategol.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15

Cyflwynwyd – Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2014/15.

Yn ei chyflwyniad, rhoddodd y Cyfarwyddwr amlinelliad o berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn a fu, gan adrodd ar berfformiad da ynghyd â meysydd lle mae angen gwella, a hynny o fewn cyd-destun lle mae angen trawsffurfio a newid er mwyn ymateb i ofynion deddfwriaethol ac ariannol. Ymhelaethodd hefyd ar yr hyn sy'n wynebu'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y cyfnod nesaf ac i ba raddau mae'r perfformiad yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gref neu beidio.

Cymerodd y cyfle hefyd i ddiolch i holl staff yr adrannau a hefyd y gweithwyr gofal ar hyd a lled Gwynedd, yn fewnol ac allanol, am eu gwaith caled ac ymroddiad llwyr i'r gwaith pwysig hwn. Diolchodd yn benodol i'r ddau Aelod Cabinet, y Cynghorwyr Gareth Roberts a Mair Rowlands am eu cefnogaeth ac i'r cyn-aelod Cabinet, y Cynghorydd Wyn Williams am ei waith yn ystod y flwyddyn. Diolchodd hefyd i Aled Davies am sefyll yn y bwlch fel Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gan ddymuno gwellhad buan i Gwenan Parry.

Yn dilyn y cyflwyniad, ymatebodd y Cyfarwyddwr i gyfres o gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau mewn perthynas â:-

- Yr angen am dri Phencampwr Gofal - un dros Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Nodwyd, gyda'r newidiadau mawr sydd ar y gorwel, y byddai'n anodd i'r Pencampwr Gofal presennol barhau i weithredu dros Wynedd gyfan a chan fod yna gyswllt agos rhwng y rôl a gwaith y Cyngor Iechyd Cymdeithas, awgrymwyd y gallai'r ddau aelod sy'n cynrychioli ardaloedd Arfon a Dwyfor ar y corff hwnnw ymgymryd â rhywfaint o waith y Pencampwr Gofal yn yr ardaloedd hynny. Nododd y Cadeirydd y byddai'r sylw'n cael ei basio ymlaen i'r gwasanaeth ei ystyried.
- Siomedigaeth bod y Cyngor wedi gwneud i ffwrdd â swydd y Swyddog Anableddau yn dilyn ymddeoliad cyn-ddeilydd y swydd a chais i ail-sefydlu'r swydd. Nododd y Cadeirydd y byddai'r sylw'n cael ei basio ymlaen i'r gwasanaeth ei ystyried.
- Cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd yn wyneb trafferthion presennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Llwyddiant y Prosiect yn Alltwen.
- Morâl y staff a sut mae monitro hynny.
- Y cyfle i hyrwyddo ffyrdd gwahanol o weithio ac arloesi a symud yr agenda trawsffurfio yn ei flaen.
- Llwyddiant y Tîm Trothwy Gofal sy'n edrych ar drawsnewid y gwasanaeth plant.

- Yr her o gadw'r staff presennol a denu staff newydd o'r ysgolion, y prifysgolion a'r colegau lleol yn y sefyllfa ariannol sydd i ddod.
- Pwy a beth sy'n gwneud i gost y gwasanaeth fod mor uchel, o gofio nad yw llawer o bobl byth yn mynd ar ofyn y gwasanaeth?
- Pam bod lefelau cancr mor uchel yng Ngwynedd? Atebodd y Cyfarwyddwr y gallai hi a'r Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd godi'r math yma o gwestiwn yn y Fforwm Sirol gyda swyddogion a rheolwyr y Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r trydydd sector.

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am eu holl waith yn ystod y flwyddyn.

## 7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 9 | 4 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 9 | 5 | 2 | 2 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Cynllunio | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 2 | | | 1 |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **78** | **37** | **21** | **10** | **4** | **4** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor | 6 | 2 | 2 | 1 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghorol Lleol | | | | | | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **98** | **47** | **26** | **13** | **5** | **5** | **194** |

## 8. ABSENOLDEB AELOD O’R CYNGOR

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i’r Cyngor gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd ei bod yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd, sy’n debygol o effeithio ar ei gallu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o’r awdurdod am gyfnod.

Dymunwyd yn dda i’r Cynghorydd a nodwyd y byddai ei chyd-gynghorwyr yn cynnig pob gwasanaeth all fod o gymorth iddi yn ei hardal.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd yr amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei galluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.**

## 9. RHYBUDDION O GYNNIG

(a) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd R.H.Wyn Williams, dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe’i eiliwyd.

**“Galwn ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli pwerau Comisiwn y Goron i Lywodraeth Cymru fel bod Cymru'n manteisio ar incwm a geir o diroedd ac arfordir Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd Cymru yn fwy llewyrchus drwy fod yn berchen ar yr hawliau i bysgota, mwyngloddio, chwilio am nwy ac olew, ynni'r llanw a thonnau'r môr a ffermydd gwynt, aur ac arian, a'r holl ynni a'r adnoddau sydd o fewn dyfroedd a ffiniau tiriogaethol dynodedig Cymru. Rydym hefyd yn gofyn i Awdurdodau Lleol eraill Cymru gefnogi'r cais."**

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:-

- Er y croesawid yr egwyddor y tu ôl i’r cynnig, nad oedd hyn mor syml ag y mae’n swnio gan y byddai’n rhaid i Gymru fod yn wlad annibynnol o’r bron i gael yr hawliau yma.
- Bod hyn am ddigwydd yn yr Alban.
- Y cefnogid y cynnig, a phetai hyn yn cael ei wireddu a bod yr arian yn dod i Gymru, y dylai fynd i’r ardaloedd hynny o ble mae’r arian yn dod, ac nid i Gaerdydd.

Cefnogwyd y cynnig.

**PENDERFYNWYD derbyn y cynnig.**

(b) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, lythyr gan Mark Thomas, Golygydd y Daily Post, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Sian Gwenllian i'r cyfarfod diwethaf ynghylch penderfyniad Trinity Mirror i gau Swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon.

**PENDERFYNWYD nodi'r llythyr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.50pm.